Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# **Briff Ymchwil:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6316**
E-bost: **Chloe.Corbyn@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddResearch**
Blog: **SeneddResearch.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil
## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Awdur:** Chloe Corbyn
**Dyddiad:** Mai 2018
**Rhif yr ymholiad:** 18-033

# Contents

**1. Y Ddeddf ........ 1**

Y saith nod llesiant ........ 2

**2. Cyrff cyhoeddus ........ 3**

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio ........ 4

Amcanion llesiant ........ 5

**3. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 7**

Asesiad o Lesiant Lleol ........ 8

Cynlluniau llesiant lleol ........ 9

**4. Dangosyddion cenedlaethol, cerrig milltir a'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ........ 10**

Dangosyddion cenedlaethol ........ 10

Cerrig milltir ........ 10

Adroddiad tueddiadau'r dyfodol ........ 10

**5. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru ........ 11**

**6. Archwilydd Cyffredinol Cymru ........ 13**

**7. Canllawiau ........ 15**

SPSF 1: Canllawiau Craidd ........ 15

SPSF 2: Rôl unigol (cyrff cyhoeddus) ........ 15

SPSF 3: Rôl ar y cyd (byrddau gwasanaethau cyhoeddus) ........ 16

SPSF 4: Rôl ar y cyd (cynghorau cymuned) ........ 16

# 1. Y Ddeddf

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015, ac roedd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, ac mae wedi ei chynllunio i sicrhau bod camau gweithredu yn diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel y:

> broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

## Y saith nod llesiant

Mae'r Ddeddf yn pennu **saith nod llesiant ar gyfer Cymru:**

| | |
|---|---|
| **A prosperous Wales** | An innovative, productive and low carbon society which recognises the limits of the global environment and therefore uses resources efficiently and proportionately (including acting on climate change); and which develops a skilled and well-educated population in an economy which generates wealth and provides employment opportunities, allowing people to take advantage of the wealth generated through securing decent work. |
| **A resilient Wales** | A nation which maintains and enhances a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change). |
| **A healthier Wales** | A society in which people's physical and mental well-being is maximised and in which choices and behaviours that benefit future health are understood. |
| **A more equal Wales** | A society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or circumstances (including their socio economic background and circumstances). |
| **A Wales of cohesive communities** | Attractive, viable, safe and well-connected communities. |
| **A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language** | A society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language, and which encourages people to participate in the arts, and sports and recreation. |
| **A globally responsible Wales** | A globally responsible Wales. A nation which, when doing anything to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales, takes account of whether doing such a thing may make a positive contribution to global well-being.and the capacity to adapt to change (for example climate change). |

# 2. Cyrff cyhoeddus

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt bennu a chyhoeddi amcanion i ddangos sut y byddant yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y nodau llesiant. Mae'n ofynnol i'r cyrff wneud y cyfraniad gorau posibl i gyflawni pob un o'r amcanion llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a bennir ganddynt. Mae angen i gyrff cyhoeddus dalu'r gost o gyflawni gofynion y Ddeddf.

Y cyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf yw:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau lleol;
- Byrddau iechyd lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;
- Awdurdodau Tân ac Achub Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru; ac
- Amgueddfa Cymru.

Er na chânt eu dynodi fel 'cyrff cyhoeddus', mae'n ofynnol i unrhyw Gyngor Tref neu Gyngor Cymuned sydd ag incwm neu wariant sy'n fwy na £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y cyhoeddir y cynllun llesiant lleol weithio tuag at weithredu'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei ardal.

## Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio

Mae'r Ddeddf yn sefydlu "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Gelwir y rhain y "pum dull o weithio":

- **Yr hirdymor**: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd;
- **Atal:** Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithredu:** Ystyried sut y gall cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal/ y maes y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru fframwaith ym mis Ionawr 2018. Bwriadwyd i'r **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer dylunio gwasanaethau** gael ei ddefnyddio gan y rhai sy'n dylunio ac yn goruchwylio darpariaeth gwasanaethau, i annog barn, i gynnal trafodaethau strwythuredig, ac i gynorthwyo i wneud penderfyniadau am ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod gwasanaethau'n wydn a'u bod yn ceisio gwella llesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol. Mae defnyddio'r fframwaith yn fater anstatudol ac mae'n ddewisol.

## Amcanion llesiant

Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus bennu **amcanion llesiant**, ac fe'u hanogir i sicrhau bod cynllunio corfforaethol yn dod yn fecanwaith ar gyfer eu pennu. Dylid adolygu'r amcanion fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, a gellir eu diwygio neu eu hadolygu ar unrhyw adeg. Mae adolygu ei amcanion llesiant yn rhoi cyfle i gorff cyhoeddus sicrhau bod ei amcanion yn gydnaws ag amcanion y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ei ardal.

Ar yr un pryd â chyhoeddi amcanion, rhaid i gorff cyhoeddus hefyd gyhoeddi **datganiad llesiant.** Rhaid i'r datganiad esbonio:

- Pam mae'r corff cyhoeddus o'r farn y bydd ei amcanion llesiant yn cyfrannu at y nodau llesiant;
- Pam mae'r corff cyhoeddus o'r farn bod ei amcanion llesiant wedi'u pennu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- Y camau i'w cymryd i fodloni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- Sut y bydd y corff cyhoeddus yn llywodraethu ei hun i gyflawni ei amcanion llesiant;
- Sut y bydd y corff cyhoeddus yn parhau i adolygu'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant;
- Sut y bydd yn sicrhau bod adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, yn cael eu dyrannu yn flynyddol at ddiben cymryd camau i gyflawni ei amcanion;
- Pryd y mae'n disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant; ac
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall am yr amcanion.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyfres gychwynnol o 14 o amcanion llesiant. Datblygwyd y rhain ymhellach, a chyhoeddwyd cyfres derfynol o 12 o amcanion llesiant ar gyfer 2016 -2021 yn ei **Datganiad llesiant 2017** ym mis Hydref 2017. Mae'r 12 amcan wedi'u strwythuro ar sail y pedair thema a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, **Symud Cymru Ymlaen**: Ffyniannus a diogel; Iach ac egnïol; Uchelgeisiol ac yn dysgu; ac Unedig a chysylltiedig. Mae'r datganiad yn dweud y bydd y rhain yn "sylfaen" i'r strategaethau sy'n cyd-fynd â hwy. Yr amcanion llesiant yw:

1. 01.Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant;
2. 02.Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg;
3. 03.Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
4. 04.Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol;
5. 05.Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb;
6. 06.Creu cymunedau mwy iach ac amgylchiadau gwell;
7. 07.Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial;
8. 08.Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw;
9. 09.Sicrhau bod gan bawb sydd y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid;
10. 10.Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth;
11. 11.Darparu seilwaith modern a chysylltiedig; a
12. 12.Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae Atodiad A o'r datganiad llesiant yn darparu cymhariaeth yn erbyn y 14 o amcanion llesiant gwreiddiol.

Rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi cyfres newydd o amcanion heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredinol. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol yn dangos sut y mae wedi symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion llesiant. Dylai'r adroddiadau hyn ddangos y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nodau llesiant drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir (gweler Adran 4). Cyhoeddwyd **y cyntaf o'r adroddiadau cynnydd hyn** ym mis Medi 2017.

Roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus eraill gyhoeddi eu cyfres gyntaf o amcanion llesiant erbyn mis Mai 2017. Fel yn achos Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion.

# 3. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd Deddf 2015 yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y Byrddau hyn yn disodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol (LSBs) a'u rhagflaenodd. Roedd y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn bartneriaethau anstatudol oedd â'r nod o ddarparu dull gweithredu strategol o fynd i'r afael â materion trawsbynciol sy'n gwneud dull gweithredu amlasiantaethol yn ofynnol. Dywed Deddf 2015 y gall dau neu ragor o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno i uno os ydynt o'r farn y byddai'n eu helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cyfarwyddyd i ddau neu ragor o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus uno, ond dim ond os yw'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob Bwrdd sy'n ceisio neu'n sy'n cytuno i uno.

Rhaid i bob Bwrdd wella llesiant economaidd, llesiant cymdeithasol, llesiant amgylcheddol a llesiant diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant. Dylai asesu cyflwr llesiant economaidd, llesiant cymdeithasol, llesiant amgylcheddol a llesiant diwylliannol yn ei ardal (Asesu Llesiant Lleol) a phennu amcanion i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at y nodau llesiant. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i'r Cynllun nodi pam mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y bydd ei amcanion yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal leol. Rhaid iddo hefyd ddangos sut y mae wedi ystyried yr Asesiad o Lesiant Lleol wrth bennu ei amcanion. a'r camau y mae'n rhaid eu cymryd. Bydd pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynnal adolygiad blynyddol o'i Gynllun, er mwyn dangos cynnydd.

Rhaid i aelodau pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol (PSB) gynnwys:

- Yr awdurdod lleol;
- Y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol;
- Awdurdod tân ac achub yng Nghymru ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn yr ardal awdurdod lleol; a
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ychwanegol at yr aelodau hyn, rhaid i bob Bwrdd hefyd wahodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i gymryd rhan ar y Bwrdd:

- Gweinidogion Cymru;
- Prif Gwnstabl yr ardal heddlu;
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal heddlu;
- Rhai gwasanaethau prawf;
- O leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

Caiff pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd wahodd unrhyw un arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

Sefydlwyd 19 PSB yng Nghymru. Mae Ynys Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych a Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (Cwm Taf) wedi ymuno i ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac mae'r 16 Bwrdd arall wedi dewis gweithio eu hunain o fewn ôl troed eu hawdurdod lleol.

## Asesiad o Lesiant Lleol

Mae'n ofynnol i bob PSB baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, llesiant cymdeithasol, llesiant amgylcheddol a llesiant diwylliannol ei ardal. Roedd yn ofynnol i PSBau gyhoeddi eu hasesiadau cyntaf o lesiant lleol erbyn mis Mai 2017.

Yn fuan wedi i'r asesiadau gael eu cwblhau, adolygodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr asesiadau a nodi ei **chanfyddiadau a'i hargymhellion allweddol**. Dywedodd:

> PSBs are to be congratulated for the positive approach they have taken to completing the assessments; they are a step in the right direction but they also highlight where the real challenges for public bodies lie in considering the needs of future generations.

Amlinellodd nifer o argymhellion ar gyfer PSBs. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol ystyried a yw'r ffordd y cânt eu cadeirio a'u hariannu yn cefnogi ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd orau;

- Dylai PSBau ystyried sut y gallant ddatblygu eu gwaith cyfranogiad hyd yma, a chydweithio'n well â'i gilydd;
- Er gwaetha'r dystiolaeth yn yr asesiadau sy'n dangos amryw o dueddiadau brawychus, dim ond mewn tiriogaeth ddiogel a di-ddadleuol y mae PSBs yn eu cymryd. Mae angen i PSBau ddangos sut y maent yn nodi ac yn archwilio tensiynau rhwng gwahanol faterion polisi a blaenoriaethau; a
- Dylai PSBau ystyried sut i gysylltu cynlluniau llesiant â strategaethau a chynlluniau eraill.

## Cynlluniau llesiant lleol

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i PSB gyhoeddi cynllun llesiant lleol, sy'n nodi eu hamcanion lleol a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid cyhoeddi'r cynllun cyntaf o fewn blwyddyn o etholiadau llywodraeth leol (felly erbyn mis Mai 2018). Dylai'r cynllun gynnwys:

- Pam mae'r PSB yn teimlo y bydd ei amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal leol; a
- Sut y mae wedi ystyried yr asesiad o lesiant lleol wrth bennu ei amcanion a phennu'r camau i'w cymryd.

Rhaid adolygu'r cynllun yn flynyddol, a rhaid i PSBau ddangos eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion. Anogir cyrff cyhoeddus i ystyried sut y mae eu proses cynllunio corfforaethol yn cysylltu â'r broses o ddatblygu cynlluniau llesiant.

Mae'n rhaid i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned sy'n cyrraedd y trothwy incwm a / neu wariant, sef £200,000, gymryd pob cam rhesymol i gyfrannu tuag at Gynllun Llesiant y PSB a pharatoi adroddiad arno'n flynyddol. Mae'n ofynnol i PSB gynnwys pob Cyngor Tref a Chyngor Cymuned yn yr ardal pan fydd yn ymgynghori ar yr asesiad a'r Cynllun, p'un ai a ydynt yn cyrraedd y trothwy ai peidio. Caiff Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hefyd eu hannog i gymryd rhan.

# 4. Dangosyddion cenedlaethol, cerrig milltir a'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

## Dangosyddion cenedlaethol

O dan Adran 10(1) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Gosodwyd y **gyfres gyntaf o ddangosyddion, a'r ddogfen dechnegol sy'n cyd-fynd â hwy**, gerbron y Cynulliad ym mis Mawrth 2016. Mae'r gyfres o 46 o ddangosyddion yn cwmpasu sbectrwm eang o bynciau, gan gynnwys iechyd, yr amgylchedd ac addysg.

Ym mis Medi 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hadroddiad Llesiant Cymru cyntaf** . Rhydd yr adroddiad hwn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir yng Nghymru tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Mae'n ystyried y sefyllfa bresennol a'r cynnydd a wneir, drwy gyfeirio at y 46 dangosydd cenedlaethol a rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ychwanegol lle bo hynny'n briodol

## Cerrig milltir

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod cerrig milltir i nodi disgwyliadau ynghylch yr hyn y dylai'r dangosyddion eu dangos ar adegau penodol yn y dyfodol. Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Weinidogion gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn nodi'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid yw'r cerrig milltir hyn wedi'u cyhoeddi eto.

## Adroddiad tueddiadau'r dyfodol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** cyntaf ym mis Mai 2017. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn dueddiadau cymdeithasol, tueddiadau amgylcheddol, tueddiadau economaidd a thueddiadau diwylliannol allweddol i Gymru ar gyfer y dyfodol, o fewn chwe thema sy'n effeithio ar fusnes pob agwedd ar weinyddiaeth y llywodraeth a gweinyddiaeth gyhoeddus, sef: Poblogaeth; Iechyd; Economi a Seilwaith; Newid yn yr Hinsawdd; Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol; a Chymdeithas a Diwylliant. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi peth dadansoddiad cychwynnol o'r ffactorau dylanwadol a allai effeithio ar y tueddiadau a nodwyd yn y dyfodol, ac yn edrych yn fanwl ar y rhyngweithiadau rhwng effeithiau posibl a chyfunol y tueddiadau. Bwriad yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yw bod yn

ffynhonnell wybodaeth i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall y symbyliadau hirdymor sy'n effeithio ar lesiant Cymru a'i chymunedau.

# 5. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

Penodwyd Sophie Howe gan Lywodraeth Cymru fel y **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf** ar gyfer Cymru, yn 2016. Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw gweithredu fel gwarcheidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.  Mae'r Comisiynydd yn dal swydd am gyfnod o 7 mlynedd.


Mae gan y Comisiynydd nifer o rolau, a gall ymgymryd â nifer o gamau gweithredu:

- **Cynghori, annog a hyrwyddo:** Gall y Comisiynydd roi cyngor i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u hyrwyddo a'u hannog i weithio i gyflawni eu hamcanion llesiant.
- **Ymchwil:** Gall y Comisiynydd wneud gwaith ymchwil, er enghraifft i'r nodau llesiant, y dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir, a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- **Cynnal adolygiadau:** Gall y Comisiynydd gynnal adolygiad o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith eu penderfyniadau yn yr hirdymor, a gwneud argymhellion ar sail y canfyddiadau.
- **Gwneud Argymhellion:** Gall y Comisiynydd wneud argymhellion i gorff cyhoeddus ynglŷn â'r camau y mae wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i bennu ac yna i gyflawni ei amcanion llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn yr argymhellion a nodwyd gan y Comisiynydd.
- **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol:** Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi, flwyddyn cyn etholiad y Cynulliad, adroddiad sy'n cynnwys ei hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant; a
- **Panel Cynghori:** Cefnogir y Comisiynydd gan Banel Cynghori. Mae'r Panel yn cynnwys Comisiynwyr eraill Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru,

cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru, TUC Cymru a busnesau Cymru. Caiff y Comisiynydd wahodd eraill i fod yn bresennol a gall Gweinidogion Cymru benodi aelodau newydd.

Hefyd, rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn, gan nodi crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer ei swyddogaethau, dadansoddiad o effeithiolrwydd y camau hynny, a chrynodeb o'i rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyhoeddwyd yr **adroddiad blynyddol a'r cyfrifon cyntaf** (ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 tan 31 Mawrth 2017) yng nghanol 2017.

Yn ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, dywed y Comisiynydd, wrth weithio gyda'r Sefydliad New Economics, ei bod wedi datblygu cyfres o feini prawf i asesu'r meysydd hynny a fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyrraedd y nodau llesiant ac yn ymgorffori'r ffyrdd o weithio a nodir yn y Ddeddf, gyda ffocws penodol ar yr hirdymor. Mae hi wedi nodi chwe maes ffocws, ar ddwy thema eang:



# 6. Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru rôl allweddol mewn perthynas â'r Ddeddf, a gall gynnal archwiliadau o'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i asesu:

> …i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth -
>
> (a) gosod amcanion llesiant, a
>
> (b) cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ar yr archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn pob etholiad Cynulliad. Wrth gynnal archwiliad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac argymhellion a wnaed ganddi. Rhaid iddo ymgynghori â'r Comisiynydd hefyd.

Yn 2017, llofnododd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth**. Mae'r Memorandwm yn darparu sail ar gyfer sut y byddant yn cydweithredu i ddarparu o ran y meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddau ohonynt, ac yn benodol ar y cyfrifoldebau cysylltiedig a nodir yn y Ddeddf. Mae pedwar maes penodol a nodir yn y Ddeddf lle mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddiddordeb neu gyfrifoldeb a rennir, ac mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd ar yr agweddau hyn:

> Ymchwiliadau ac adolygiadau
>
> Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau dull cydlynol at ymchwiliadau ac adolygiadau, fel:
>
> bod ein gwaith yn ategol, yn gymesur ac â'r gwerth ac effaith fwyaf;
>
> ein bod yn helpu i wneud defnydd effeithlon o'n hadnoddau;
>
> ein bod yn helpu ein gilydd i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd i fonitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a nodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

Byddwn yn ceisio datblygu rhaglen waith gydgysylltiedig ar gyfer ymchwiliadau adran 15 ac adolygiadau adran 20.

- Adroddiadau Cenedlaethol

Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ganlyniadau ei ymchwiliadau.

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys ei hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn pennu a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol). Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ystyried adroddiadau perthnasol yr Archwilydd Cyffredinol.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn cyfathrebu â'i gilydd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r adroddiadau hyn.

- Cyngor

Gall y Comisiynydd roi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae enghreifftiau o sut y caiff hyn ei wneud yn ymarferol yn cynnwys:

Cyfarfodydd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

Cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd sy'n cynnig cyngor ar bennu cwmpas a datblygu gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd sy'n cefnogi staff Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y gellir ei chymhwyso.

Bydd y Comisiynydd yn rhannu'r cyngor mae'n ei ddarparu i gyrff cyhoeddus â'r Archwilydd Cyffredinol.

- Arfer da

  Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiynydd i annog arfer gorau ymysg cyrff cyhoeddus, yn benodol o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

  Nid yw deddfwriaeth yn rhagnodi rôl benodol i'r Archwilydd Cyffredinol wrth annog arfer gorau. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i wella gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru drwy nodi a rhannu arfer da.

  Felly, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn ceisio cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu ar y cyd a hyrwyddo arfer da gan gyrff cyhoeddus o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

# 7. Canllawiau

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **cyfres o ganllawiau statudol** ar gyfer cyrff cyhoeddus a bennir yn y Ddeddf. Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddf.

Mae pedair dogfen ganllaw yn y pecyn:

## SPSF 1: Canllawiau Craidd

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar ddiffiniadau allweddol, sut i gyflawni datblygu cynaliadwy, deall y nodau llesiant, cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, esboniad o'r dyletswyddau unigol (cyrff cyhoeddus) a dyletswyddau cyfunol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus), sut mae cyrff cyhoeddus yn perthyn o fewn pensaernïaeth y Ddeddf, a lle y disgwylir i'r newidiadau allweddol mewn sefydliadau gael eu gweld.

## SPSF 2: Rôl unigol (cyrff cyhoeddus)

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i bob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf i helpu cyrff cyhoeddus i osod amcanion llesiant, cyhoeddi datganiad llesiant, adolygu amcanion llesiant ac adrodd ar gynnydd.

## SPSF 3: Rôl ar y cyd (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

Mae hon yn cynnwys canllawiau i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ynghylch arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys paratoi asesiad o lesiant lleol a chynllun llesiant lleol.

## SPSF 4: Rôl ar y cyd (cynghorau cymuned)

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer y cynghorau cymuned a thref hynny sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf i gydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol.